Pontcysyllte
Safle Treftadaeth Y Byd
World Heritage Site

# Gweithio ar y Gamlas – Ddoe a Heddiw

## Nodiadau Canllaw i Athrawon

### Amcanion Dysgu

- Darganfod mwy am y bobl a oedd yn gwneud bywoliaeth o fyw ar y gamlas yn y gorffennol a'r bobl sy'n gweithio arni neu o'i chwmpas heddiw
- Deall sut mae'r swyddi yma wedi newid dros amser
- Dysgu sut oedd y gamlas yn cael ei chynnal a'i chadw yn y gorffennol a sut mae'n parhau i gael ei chynnal a'i chadw heddiw

### Adnoddau

- Ffeil Ffeithiau: Swyddi ar y gamlas tua 1900 a heddiw
- Tabl cymharu swyddi ar y gamlas
- Sianel YouTube Canal & River Trust – Mae rhestrau chwarae What We Do, Humans of the Waterways ac Our People yn arbennig o berthnasol
- All About Canals, tudalennau 10 ac 11
- Pecyn pwnc 'Building and Carrying'

### Cyfarwyddiadau ar gyfer y Gweithgaredd

Bydd dysgwyr yn cymharu swyddi ar y gamlas yn y gorffennol a swyddi heddiw gan ddefnyddio'r daflen wybodaeth a'r lluniau, yn ogystal â gwneud gwaith ymchwil eu hunain. Byddant yn edrych ar yr hyn sy'n debyg ac yn wahanol ac yn awgrymu rhesymau dros y newidiadau, gan eu cofnodi mewn tabl. Wedyn byddant yn dewis llun o swydd ac yn creu ffrâm rewi o'r swydd honno.

**Esboniad o'r ffrâm rewi**

Mae ffrâm rewi yn ddarlun tawel a llonydd o olygfa. Mae'r dysgwyr yn cydweithio mewn grwpiau i gynrychioli rhan o ffilm neu ffotograff drwy ddramateiddio. Maent yn defnyddio eu cyrff i wneud llun sy'n cipio eiliad mewn amser. Gallant gynrychioli pobl, gwrthrychau neu gysyniadau goddrychol fel emosiwn neu awyrgylch. Gan nad oes llinellau i'w dysgu, mae fframiau rhewi yn gallu helpu perfformwyr swil i feithrin hyder. Gellir datblygu hyn trwy gynnwys meddyliau pobl y maent yn eu cynrychioli ac fel ysbrydoliaeth i ddechrau darn byr o ddrama.

### Syniadau Gweithgareddau Cychwynnol:



Ymchwiliwch i swyddi'r gorffennol a swyddi heddiw gan ddefnyddio'r Ffeiliau Ffeithiau fel man cychwyn.

Gwyliwch rai o'r ffilmiau ar sianel YouTube y Canal & River Trust i ddysgu am y swyddi amrywiol sy'n cynnal a chadw'r gamlas heddiw.

### Gweithgareddau Eraill:



Ymchwiliwch i swyddi'r gorffennol a swyddi heddiw gan ddefnyddio'r Ffeiliau Ffeithiau fel man cychwyn.

Gwyliwch rai o'r ffilmiau ar sianel YouTube y Canal & River Trust i ddysgu am y swyddi amrywiol sy'n cynnal a chadw'r gamlas heddiw.

### Briff ar gyfer Dysgwyr:



Roedd llawer o waith gofalu am gamlesi er mwyn atal dŵr rhag gollwng ac er mwyn eu cadw'n glir. Mae hynny'n wir hyd heddiw! Mae technoleg fodern wedi newid y ffordd y mae camlesi'n cael eu cynnal a'u cadw ond mae rhai technegau traddodiadol wedi aros hyd heddiw. Mae'r ffordd y mae'r gamlas yn cael ei defnyddio wedi newid hefyd ac mae hyn yn effeithio ar y math o fusnesau sydd i'w gweld ar hyd ymyl y gamlas.


**Gweithgaredd 1**: Compare canal jobs past and present. Think about the historic jobs and their modern day equivalents.
**Trafodwch:** Sut mae'r swyddi wedi newid? Pam ydych chi'n meddwl mae nhw wedi newid? Pa offer oedden nhw / maen nhw yn eu defnyddio? Beth oedden nhw / maen nhw yn ei wisgo? Sut oedd yr / mae'r amodau?
A oes unrhyw swydd heddiw nad oedd swydd debyg iddi yn y gorffennol? Ystyriwch dwristiaeth a chadwraeth.
Cofnodwch eich atebion ar y 'tabl cymharu swyddi ar y gamlas' ac yna trafodwch fel dosbarth.

**Gweithgaredd 2:** Dewiswch lun o un o'r swyddi a chrëwch ffrâm rewi o'r olygfa honno. Meddyliwch beth sydd ar feddwl yr unigolyn yn y llun neu sut mae'n teimlo? Ydyn nhw'n mwynhau eu swyddi? Gallech wisgo gwisgoedd neu ddefnyddio propiau.
Wedyn gallwch ddad-rewi a gweithredu'r olygfa, gan ail-greu beth sy'n digwydd yn y llun. Gallwch naill ai wneud hyn yn dawel neu gallwch ychwanegu deialog eich hun.
Tynnwch luniau o'ch fframiau rhewi a chymharwch nhw gyda'r lluniau gwreiddiol.

# Ffeil Ffeithiau: Gweithio ar y gamlas tua 1900

**FFAITH** **Roedd cludo nwyddau ar gamlesi yn cadw miloedd o bobl mewn swyddi.**

Roedd y gamlas yn perthyn i **Gwmni Rheilffyrdd a Chamlesi Undeb Swydd Amwythig.** Yn ogystal â'r bobl a oedd yn gweithredu'r cychod, roeddent hefyd yn rhoi swyddi i dimau **cynnal a chadw, rheolwyr glanfeydd a warysau.**



## Ar y Cychod




Roedd angen o leiaf dau o bobl i weithredu cwch camlas a oedd yn cael ei dynnu gan geffyl. Roedd y **cychwr** yn llywio'r cwch tra bo'r **gyrrwr ceffyl** yn cerdded ar hyd y llwybr tynnu. Roedd plant mor ifanc ag wyth neu naw oed yn gweithio fel gyrwyr ceffylau, gan gerdded milltiroedd lawer gyda'r ceffyl, a hynny yn aml am fwy na deuddeg awr y dydd. (Gweler 'Cymharu bywydau'r cyfoethog a'r tlawd' am fwy o wybodaeth)



Roedd ceffylau yn werthfawr ac felly'n cael eu trin yn dda yn gyffredinol. Roedd llawer o bobl yn cael eu cyflogi ar hyd y gamlas i ofalu am y ceffylau. Roedd **ostleriaid** yn rhedeg stablau wrth ymyl y gamlas, **ceidwaid storfeydd** yn gwerthu bwyd tra bo cwmnïau'r gamlas yn cyflogi **arolygwyr** i sicrhau bod yr anifeiliaid yn cael gofal da. Roedd pedolau'n para rhwng pedair a chwech wythnos felly roedd gwaith rheolaidd ar gael i **ffariers**, sef gofaint a oedd yn pedoli'r ceffylau.



Daeth Llangollen yn gyrchfan boblogaidd i **dwristiaid**. Cafodd y **teithiau cychod a dynnir gan geffylau** eu rhedeg am y tro cyntaf yn 1881 o Lanfa Llangollen. Erbyn 1890 roedd Capten Samuel Jones yn rhedeg **chwech o gychod pleser**, ac roedd y mwyaf o'r rheiny yn dal 200 o deithwyr, er mwyn ateb y galw cynyddol. Ar y pryd roedd angen **saith o ddynion a phump o geffylau** arno.




# Ffeil Ffeithiau: Gweithio ar y gamlas tua 1900

## Ar Ymyl y Gamlas












Roedd glanfeydd, lle roedd nwyddau'n cael eu llwytho a'u dadlwytho, yn lleoedd prysur. Roedd **glanfawyr** yn rheoli'r glanfeydd ac yn aml yn byw mewn tai ar y safle a oedd wedi cael eu hadeiladu gan gwmni'r gamlas. Roedd **llafurwyr** yn cael eu cyflogi i lwytho a dadlwytho cargo, gan ddefnyddio craeniau a phwlïau bach.


Roedd angen **seiri coed** i atgyweirio a newid lociau. Roedd angen **gofaint** i atgyweirio neu newid eitemau haearn. Yn yr iard gynnal a chadw yn Ellesmere roedd gweithdy gwaith coed ac efail gof.



Roedd **ceidwaid tollau** yn casglu arian neu dollau yr oedd pobl yn eu talu i ddefnyddio'r camlesi.






Roedd **adeiladu a chynnal a chadw cychod** yn bwysig iawn. Roedd doc sych ac iard gychod ym Masn Trefor lle roedd rhwng pump a deg o bobl yn cael eu cyflogi i gynnal a chadw'r cychod. Cafodd rhai cychod eu hadeiladu yno hefyd.

Roedd **tafarnwyr** yn darparu lluniaeth a llety ar hyd ymyl y gamlas.



# Ffeil Ffeithiau: Gweithio ar y gamlas tua 1900

## Cynnal a chadw'r Gamlas



### Roedd cadw'r gamlas mewn cyflwr da yn dasg anferth.

Roedd **arolygwyr camlesi** yn gwirio cyflwr y gamlas yn rheolaidd.

Roedd **fforddolwyr** yn cael 'rhannau' o'r gamlas i ofalu amdanynt. Eu gwaith nhw oedd patrolio eu darn nhw, gwirio lefelau'r dŵr, torri llystyfiant, gwneud mân waith atgyweirio, chwilio am ddŵr yn gollwng a gwneud yn siŵr bod ymylon y gamlas yn ddiogel.

Roedd **gangiau cynnal a chadw** yn delio â thasgau mwy. Os oedd angen, byddent yn defnyddio 'planciau atal' pren i gau rhan o'r gamlas i ffwrdd er mwyn ei draenio tra bo'r gwaith atgyweirio'n cael ei wneud.




Roedd mwd a malurion yn cronni ar waelod y gamlas a'i gwneud yn llai dwfn. Roedd **badau carthu** gyda sgwpiau mecanyddol yn cael eu defnyddio i dynnu'r mwd allan.

Roedd rhew yn broblem fawr yn y gaeaf gan nad oedd y cychod yn gallu symud os oedd y gamlas wedi rhewi. Roedd gan gwmnïau camlas **gychod torri rhew** pwrpasol a oedd yn cael eu tynnu gan dimau o geffylau, a gallent dorri trwy rew trwchus iawn.







Roedd cloddiau'r gamlas yn gorfod cael eu hatgyweirio'n gyson. Ambell waith roedd **gyrdd peiriant** yn cael eu defnyddio i osod pyst enfawr i mewn i ymyl y clawdd er mwyn darparu amddiffyniad ychwanegol.


Roedd y dyfrbontydd yn cael eu draenio'n rheolaidd fel bod modd eu harchwilio am ddifrod ac er mwyn glanhau'r silt allan o'r cafnau haearn fel bod y dŵr yn llifo'n haws.




www.

Porwch trwy archifau Glandŵr Cymru i weld mwy o luniau. **Cyngor** – chwiliwch am bethau fel: Llangollen Canal, maintenance, horses, boat people.

# Ffeil Ffeithiau: Gweithio ar y gamlas heddiw



**FFAITH** **Mae Camlas Llangollen yn dal i fod yn brysur heddiw, ond ar gyfer hamdden nid masnach. Mae'n un o'r camlesi mwyaf poblogaidd ar gyfer gwyliau ar fad yn y DU ac mae'n dal i gefnogi nifer o fusnesau ar hyd ymyl y dŵr.**

Mae Camlas Llangollen yn rhan o 2000 o filltiroedd o ddyfrffyrdd yng Nghymru a Lloegr sydd dan ofal **Glandŵr Cymru a Canal & River Trust**. Maent yn cyflogi ystod eang o bobl o **beirianwyr, arolygwyr a gweithredwyr dyfrffyrdd i ecolegwyr, ymgynghorwyr treftadaeth** a staff **canolfan ymwelwyr.**



© Eirian Evans (cc-by-sa/2.0)



Courtesy of Black-Prince.com

## Ar y Dŵr

Mae **Basn Trefor** yn parhau i fod yn ganolbwynt i weithgareddau'r gamlas. Mae 19 o gychod gwyliau yn ogystal â chychod teithiau undydd yn cychwyn oddi yma. Mae rhai cwmnïau'n rhedeg teithiau cychod dros y ddyfrbont. Mae eraill yn arwain teithiau canŵio drosti. Gellir llogi mwy o gychod gwyliau o **Farina'r Waun.**



© Snapshooter46 CC BY-NC-SA 2.0



Mae'r teithiau cychod a dynnir gan geffylau wedi bod yn rhedeg o Lanfa Llangollen i Westy'r Bont Gadwyn a Rhaeadr Y Bedol ers dros 100 mlynedd. Maen nhw'n boblogaidd iawn ac yn cyflogi dros 30 aelod o staff yn ystod yr haf. Mae gan bob cwch **gychwr** a **gyrrwr ceffyl.**







© Robin Drayton (cc-by-sa/2.0)

# Ffeil Ffeithiau: Gweithio ar y gamlas heddiw

## Ar Ymyl y Gamlas



Mae timau mawr o seiri coed, peintwyr, mecanyddion, trydanwyr a glanhawyr yn gweithio i wasanaethu'r cychod gwyliau. Mae'r doc sych ym Masn Trefor yn dal i gael ei ddefnyddio i atgyweirio a chynnal a chadw cychod.



© Jo Danson

Mae'r tafarndai ar hyd ymyl y gamlas bellach yn gwasanaethu ymwelwyr a thrigolion lleol yn hytrach na chychwyr a gweithwyr sychedig. Mae hen dŷ'r peiriannydd ym Masn Trefor bellach yn dafarn. Mae'r hen gapel ger y gamlas a'r hen warws yng Nglanfa Llangollen bellach yn **ystafelloedd te**. Mae yna hyd yn oed gaffi ar gwch camlas!



www.

- Teithiau a Llogi Cychod
- Cwch Caffi Mandi a Dave
- Cychod a dynnir gan geffylau

## Cynnal a Chadw'r Gamlas

Mae technoleg wedi trawsnewid gwaith cynnal a chadw'r gamlas. Mae ffonau clyfar yn offer pwysig hefyd. Mae monitorau electronig sydd wedi'u cysylltu i ap ar ffonau clyfar yn cael eu defnyddio i gofnodi lefelau dŵr. Er hynny mae staff yn dal i gael hyfforddiant i fesur lefelau dŵr â llaw gan ddefnyddio ffon fesur rhag ofn i'r dechnoleg fethu!





© Canal & River Trust

Gellir tynnu lluniau o broblemau yn ddigidol a gellir adrodd amdanynt yn gyflym trwy e-bost neu neges destun.

Gellir defnyddio dronau i gael golwg agosach ar rannau o'r gamlas sy'n anodd eu gweld. Defnyddir **peiriannau carthu modern** i atal gormod o silt rhag cronni yn y gamlas. Mae gan staff gerbydau modur sy'n golygu y gallant gadw golwg ar ardaloedd llawer mwy na ffforddolwyr y gorffennol.



© Canal & River Trust

Mae llawer o'r gamlas bellach wedi'i leinio â **choncrid** yn hytrach na **chlai**. Mae rhai hen ddulliau yn dal i fodoli hyd heddiw e.e. mae **planciau atal** yn dal i gael eu defnyddio.

# Ffeil Ffeithiau: Gweithio ar y gamlas heddiw

## Cynnal a Chadw'r Gamlas

Mae **Gweithredwyr Dyfrffyrdd** yn gyfrifol am waith cynnal a chadw o ddydd i ddydd. Maent yn siarad gydag ymwelwyr a defnyddwyr cychod a hefyd yn gweithio gyda gwirfoddolwyr, gan arwain grwpiau gwaith.
**Gwyliwch:** Meet Hayley at Pontcysyllte.

Mae **Arolygwyr Asedau** yn gwirio'r gamlas i chwilio am broblemau a maent yn rhoi gwybod i'r tîm rheoli amdanynt yn gyflym gan ddefnyddio technoleg fodern.

Mae **Peirianwyr Camlas** yn canfod atebion i broblemau ar hyd y gamlas megis tirlithriadau, waliau sydd wedi dymchwel neu unrhyw rwystrau.
**Gwyliwch:** Ffilm sy'n dangos gwaith ailadeiladu Lociau Hurleston dros amser.

Mae Rheolwyr Prosiect yn gweithio gyda pheirianwyr i ddarparu prosiectau'n ddiogel, er enghraifft, gwella llwybrau tynnu, atgyweirio pontydd neu drwsio rhannau o'r gamlas sydd wedi gorlifo.

Yn ogystal â staff Glandŵr Cymru a Canal & River Trust, mae contractwyr yn cael eu cyflogi i wneud gwaith arbenigol.









Mae **ecolegwyr** yn gofalu am fywyd gwyllt a chynefinoedd y gamlas.

Mae **Ymgynghorwyr Treftadaeth** yn sicrhau bod nodweddion hanesyddol y camlesi yn cael eu gwarchod a'u hesbonio.

Mae staff yn cydweithio fel tîm. Er enghraifft, mae peirianwyr yn archwilio'r ddyfrbont i benderfynu pryd y bydd angen gwneud gwaith draenio a chynnal a chadw. Mae'r Rheolwr Prosiect yn cydlynu pawb, gweithio gyda pheiriannwyr a chontractwyr i wneud y gwaith draenio ac archwilio / atgyweirio'r cafn a gwneud yn siŵr bod y gwaith yn cael ei gwblhau'n ddiogel ac o fewn y gyllideb. Mae contractwyr arbenigol yn abseilio i dynnu llystyfiant, dan oruchwyliaeth y Rheolwr Prosiect, gyda chymorth y Gweithredwyr Dyfrffyrdd.
**Gwyliwch:** Draining Pontcysyllte Aqueduct.







Mae **Rheolwr y Ganolfan Ymwelwyr** yn rhedeg y Ganolfan yn un o'r hen weithdai ym Masn Trefor. Yma gall bobl ganfod mwy am hanes y gamlas ac atyniadau lleol.

Mae **gwirfoddolwyr** yn bwysig iawn i helpu i ofalu am y gamlas. Mae eu gwaith yn cynnwys cynorthwyo â thasgau ymarferol, gwella mynediad, arolygon bywyd gwyllt, casglu sbwriel, staffio canolfannau ymwelwyr a chynnal digwyddiadau.



# Tabl Cymharu Swyddi ar y Gamlas



Dewiswch swydd o 1900 a swydd fodern i'w cymharu. Ceisiwch ddewis swyddi sydd â rhai pethau'n debyg e.e. dwy swydd sy'n ymwneud â chynnal a chadw'r gamlas.

Ystyriwch bethau fel beth oedden nhw'n ei wisgo? Pa offer oedden nhw'n eu defnyddio?

| Disgrifiad o'r swydd hanesyddol | Disgrifiad o'r swydd fodern | Sut mae'r swydd wedi newid? | Pam ydych chi'n meddwl y mae hi wedi newid? |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |